| | | |
|---|---|---|
| **Teitl Swydd:** Peiriannydd Cynorthwyol (Trydanol) | **Lleoliad:** Prif swyddfa - Llangefni<br>Is-orsafoedd - Caergybi<br>Gweithio o gartref ar adegau (gweithio hybrid) | **Band Cyflog: 4** |
| **Yn atebol i:** Arweinydd Gweithrediadau | **Cyfrifol am:** Amh | **Ystod Cyflog: £30,651 - £36,222** |

**Diben y Rôl:** Darparu peirianneg drydanol a chymorth prosiect i sicrhau bod prosiectau ynni yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
Cyflawni gofynion O&M y cyfnod gweithredol a chysylltu â Generaduron Llanw yn ystod eu cyfnod adeiladu a gweithredu.

| Cyfrifoldebau | Sgiliau / Profiad |
|---|---|
| **Dyletswyddau:**<br>• Ymgymryd a sicrhau bod gwasanaethau cynnal a chadw adeiladau safonol o ddydd i ddydd yn cael eu cwblhau ar amser / i safonau (e.e. trefniadau diogelwch tân, trydanol, clefyd y llengfilwyr, offer codi).<br>Trefnu, rheoli a sicrhau bod gwasanaethau cynnal a chadw mwy cymhleth eraill yn cael eu cydlynu gyda staff / cyflenwyr / contractwyr eraill.<br>• Sicrhau bod Rheolau Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Foltedd Uchel yn cael eu gweithredu a'u dilyn yn yr is-orsafoedd a chydag unrhyw waith cysylltiedig.<br>• Darparu diweddariadau misol yn tynnu sylw at gydymffurfiaeth reoleiddiol ar gyfer diogelwch adeiladau a chardiau tasgau sydd wedi'u cwblhau / heb eu cwblhau.<br>• Cynnal a diweddaru'r System Cynnal a Chadw a Rheoli Asedau.<br>• Gweithio'n agos gyda Generaduron Llanw i'w cefnogi drwy'r cyfnod adeiladu a gweithredu.<br>• Goruchwylio ymweliadau â safleoedd ac is-orsafoedd<br>• Darparu cymorth technegol ac atebion peirianneg drydanol<br><br>**Polisïau a gweithdrefnau corfforaethol:** | **Allweddol:**<br>• Cefndir Peirianneg<br>• Dealltwriaeth ymarferol dda o Iechyd a Diogelwch yn ymwneud ag adeiladu a gweithgareddau gweithredol<br>• Sgiliau Cyfathrebu Ardderchog<br>• Y gallu i gyflawni tasgau lluosog a blaenoriaethu pan fo'r llwyth gwaith yn drwm<br>• Gallu datrys problemau a chynnig atebion<br>• Sylw i fanylion, lefel uchel o gywirdeb a sgiliau trefnu effeithiol<br>• Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol<br>• Gwybodaeth am ystod o feddalwedd TG, cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ddigidol arall<br>• Sgiliau rheoli amser<br><br>**Dymunol:**<br>• Profiad o brosiectau ynni a phŵer adnewyddadwy<br>• Profiad o weithio o fewn Rheolau Diogelwch Foltedd Uchel<br>• Gwybodaeth am reoli gwaith yn yr amgylchedd morol<br>• Dealltwriaeth o ddiwylliant lleol<br>• Sgiliau Cymraeg (mae MM yn gwmni dwyieithog a defnyddir y ddwy iaith mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd) |

- Chwarae rhan ragweithiol wrth ddatblygu a mabwysiadu gweithdrefnau a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd cyffredinol y cwmni.

**Cynrychioli'r cwmni:**

- Cynrychioli'r cwmni a hyrwyddo Menter Môn yn rhagweithiol; ei waith a'i nodau a'i amcanion.

**Arall:** Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan y rheolwyr llinell a'r Uwch Dîm Rheoli.
Ar adegau prin, bydd angen gweithio y tu allan i oriau.

| Cymwysterau | |
|---|---|
| **Allweddol:** Rhaid meddu ar gymhwyster peirianneg drydanol (HNC/HND/Gradd) neu'n gweithio tuag at un (yn myny cyrsiau ar hyn o bryd) a safon addysg dda. | **Dymunol:** Y gallu i weithio'n dda o fewn tîm a dangos profiad blaenorol o weithio ar brosiectau trydanol |

**Nodweddion**

Mae'r rhain yn disgrifio'r nodweddion yr ydym yn eu disgwyl mewn unigolyn yn y rôl hon.

- Atebol;
- Trefnus;
- Sylw i fanylion;
- Hyblyg;
- Disylw;
- Ymroddedig;

| Arall | |
|---|---|
| Parodrwydd i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol | Ie |
| Parodrwydd i deithio | Ie |
| Trwydded Yrru lawn y DU a/neu fynediad at gar/trafnidiaeth eich hun | Ie |